

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf

Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf

**Rhwydweithio Cymdeithasol:
Canllawiau ynghylch Arferion i'r sawl sy'n
dod i gysylltiad trwy eu gwaith â phlant,
pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn
ardal Cwm Taf**

Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf	DYDDIAD: Rhagfyr 2014	Statws: Fersiwn Terfynol Cymeradwy
Awdur: Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf		Dyddiad Adolygu: Rhagfyr 2017

CYNNWYS

Tudalen(nau)

CYFLWYNIAD	3
DIBEN	3
DEFNYDD PERSONOL O WEFANNAU RHWYDWEITHIO CYMDEITHASOL	4
DEFNYDD SWYDDOGOL O WEFANNAU RHWYDWEITHIO CYMDEITHASOL	5
PETHAU ERAILL I'W HYSTYRIED	5
GORFODI	6

CYFLWYNIAD

Bwriad y ddogfen hon yw darparu canllawiau ynghylch arferion ar gyfer y sawl sy'n dod i gysylltiad trwy eu gwaith neu waith gwirfoddol â phlant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn ardal Cwm Taf. Mae'n cynnwys gwybodaeth a all fod yn ymwneud â gwaith, ac mae'n cynnig arweiniad ynghylch y defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol a'r effaith posibl ar ein rolau personal a'n rolau proffesiynol, yn ogystal ag oblygiadau hynny.

Nid yw'r canllawiau hyn yn disodli polisïau a gweithdrefnau disgyblu asiantaethau unigol. Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol wedi cael eu hychwanegu at y rhestr o wefannau cyfyngedig gan lawer o'n sefydliadau a'n lleoliadau gwaith, ac yn sgil hynny, efallai bod mynediad at wefannau o'r fath wedi'i atal ar gyfrifiaduron mewn gweithleoedd. Felly, dylai staff gydymffurfio â pholisi eu sefydliad ynghylch y defnydd o offer digidol i gyrchu gwefannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae argaeledd a defnydd helaeth rhaglenni rhwydweithio cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd i ddeall, ennyn diddordeb a chyfathrebu ag eraill trwy ddulliau newydd. Mae'n bwysig felly ein bod ni'n gallu defnyddio'r technolegau a'r gwasanaethau hyn yn effeithiol a hyblyg. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd sicrhau ein bod ni'n cydbwysu hyn â'n dyletswyddau, ein rolau a'n cyfrifoldebau at ein defnyddwyr gwasanaeth a'n partneriaid, ein cyfrifoldebau cyfreithiol a'n henw da.

Mae Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf (BDPCT) a Bwrdd Diogelu Oedolion Cwm Taf (BDOCT), (a elwir o hyn ymlaen yn fyrddau diogelu) yn cydnabod fod pobl yn defnyddio'r rhwydwaith gartref at ddibenion personol, a bydd llawer yn cyfranogi mewn gwefannau rhwydweithio cymdeithasol. Ar y cyfan, nid yw hyn yn gymhleth nac yn destun pryder. Fodd bynnag, weithiau, gall ein bywydau personol a'n gwaith gychwyn gorgyffwrdd trwy'r wefannau hyn, a rhaid i ni fod yn ymwybodol o'r oblygiadau posibl o safbwyntiau personol, cyfreithiol a gwaith ynghylch deunyddiau y gellid eu hystyried yn gamdriniol neu'n ddifriol.

DIBEN

Diben y canllawiau hyn felly yw:

- annog arferion da o ran diogelu plant ac oedolion mewn perygl;
- gwella ymwybyddiaeth ymarferwyr ynghylch y risgiau posibl ynghylch defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol;
- gwarchod defnyddwyr gwasanaeth rhag defnydd anaddas gan ymarferwyr o gyfryngau ar-lein;
- darparu model o arferion diogel yn ymwneud â chyfryngau ar-lein.

DEFNYDD PERSONOL O WEFANNAU RHWYDWEITHIO CYMDEITHASOL

Mae'r byrddau diogelu yn cydnabod gwerth y lefelau uwch o gyfathrebu y gall gwefannau rhwydweithio cymdeithasol a thechnoleg ddatblygol eu cynnig. Mae hawl cydnabyddedig i ryddid mynegiant, ond mae'n rhaid i ni fod yn ymwybodol o oblygiadau posibl deunyddiau y gellid eu hystyried yn gamdriniol neu'n ddifriol, neu sy'n bwrw amheuaeth ar farn gweithiwr neu wirfoddolwr a'i allu i ymgymryd â swydd

gyfrifol. Rhaid i ddefnyddwyr gofio fod yr hawl i ryddid mynegiant yn ymwneud ag ymddygiad cyfreithlon yn unig.

Er mwyn sicrhau cyfrinachedd a bod enw da'r sefydliad sy'n cyflogi yn cael ei warchod, dylai fod yn ofynnol i weithwyr sy'n defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol i:

- Sicrhau eu bod nhw'n defnyddio gosodiadau preifatrwydd sy'n gwarchod eu bywyd preifat i ganiatáu terfynnau diogel rhwng eu gwaith a'u bywyd preifat;
- Sicrhau nad ydyn nhw'n ymddwyn mewn modd sy'n niweidiol i'w cyflogwr;
- Peidio cyfeirio at eu cyflogwr na'u gwaith mewn modd niweidiol;
- Peidio gwneud sylwadau yn gyhoeddus na chyhoeddi diweddariadau statws sy'n cyfeirio at eu gwaith; rhaid cynnal cyfrinachedd;
- Peidio cyhoeddi unrhyw gynnwys a allai arwain at achosion cyfreithiol oherwydd difrïo, gwahaniaethu, torri cyfrinachedd neu hawlfraint, gwarchod data neu achosion eraill o hawlio iawndal. Mae hyn yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw ddeunydd o natur anghyfreithlon, rhywiol neu sarhaus a allai ddwy anfri arnoch chi neu eich sefydliad;
- Peidio cyhoeddi lluniau o ddefnyddwyr gwasanaeth na digwyddiadau sy'n digwydd yn ystod diwrnod gwaith gweithiwr ar unrhyw wefan rhwydweithio cymdeithasol;
- Peidio anfon na chyhoeddi negeseuon camdriniol neu ddifrïol. Dylai gweithwyr gofio fod gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn fforymau cyhoeddus, yn enwedig os yw'r gweithiwr yn rhan o 'rwydwaith'. Ni ddylai gweithwyr gymryd yn ganiataol y bydd eu cyhoeddiadau ar unrhyw wefan yn cael eu cadw'n breifat;
- Gofalu peidio caniatáu i'w rhyngweithio ag eraill ar y gwefannau hyn niweidio perthnasau gwaith rhwng aelodau staff, cleientiaid, defnyddwyr gwasanaeth neu asiantaethau partner;
- Peidio defnyddio logos cyflogwyr ar dudalennau gwe personol;
- Peidio casglu gwybodaeth am ddefnyddwyr gwasanaeth o ffynonellau rhwydweithio cymdeithasol / ar-lein.

Dylech chi ddefnyddio eich barn bob amser, ond dylech chi gadw mewn cof y codau ymddygiadau a'r polisiau sy'n rhan o'ch gofynion proffesiynol a gwaith. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Cod Ymarfer Cyngor Gofal Cymru ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol;
- Cod Ymddygiad y Cyngor Addysgu Cyffredinol;
- Coleg Nyrsio a Bydwreigaeth
- Codau ymddygiad eraill (e.e. cyfrinachedd a'r adrannau yn eich Cytundeb Cyflogaeth);
- Polisiau Cyflogaeth Posibl gan eich sefydliad/cyflogwr (e.e. Urddas yn y Gweithle, Chwythu'r Chwiban, Cynlluniau Cydraddoldeb, Defnydd o'r Rhyngrwyd, Disgyblu);
- *Mae'n cynnwys cyrff eraill e.e. athrawon, gweithwyr iechedd proffesiynol ac ati.*

Dylai gweithwyr hysbysu eu rheolwr:

- Os bydd rhywun o'r wasg neu'r cyfryngau yn cysylltu â nhw ynghylch cynnwys eu tudalen we bersonol sy'n ymwneud â'u gwaith neu waith eu sefydliad;
- Os byddan nhw'n credu eu bod nhw, neu rywun arall, yn cael eu cam-drin gan gydweithwyr trwy'r defnydd o wefan rhwydweithio cymdeithasol sydd â rhyw gyfeiriad at rolau gwaith, neu ddigwyddiadau yn ystod eu diwrnod gwaith;
- Os bydd gwybodaeth ar y wefan yn destun pryder o safbwynt gwrthdaro buddiannau;
- Os ydyn nhw'n ansicr ynghylch priodoldeb gwybodaeth neu ddelweddau maen nhw'n dymuno'u cyhoeddi ar eu tudalen we bersonol;
- Os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn ceisio clonio gwefan rhwydweithio cymdeithasol gan ddefnyddio enw gweithiwr neu wirfoddolwr;
- Os bydd defnyddiwr gwasanaeth wedi ceisio cysylltu â gweithiwr neu wirfoddolwr trwy gyfrwng rhwydweithiau cymdeithasol.

DEFNYDD SWYDDOGOL O WEFANNAU RHWYDWEITHIO CYMDEITHASOL

Mae'n rhaid i'r defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol at ddibenion swyddogol ddilyn proses gymeradwyo briodol eich sefydliad.

Mae Arferion Diogel yn cynnwys ymwybyddiaeth ac ystyriaeth o'r canlynol:

- Mae newyddiadurwyr yn gwneud defnydd cynyddol o gyfryngau ar-lein i ymchwilio i straeon ac efallai byddan nhw'n ysgrifennu adroddiadau ynghylch lluniau neu sylwadau byddan nhw'n eu ganfod;
- Yn yr un modd, mae defnyddwyr gwasanaeth yn gallu chwilio'r rhyngwyd am wybodaeth ynghylch pobl y maen nhw'n ymwneud â hwy. Gwiriwch eich gosodiadau diogelwch ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol fel bydd eich gwybodaeth yn weladwy i'r sawl rydych chi wedi penderfynu a all ei weld yn unig;
- Nodwch eich enw mewn peiriant chwilio'r Rhyngwyd i weld beth all pobl ei ganfod amdanoch chi. A ydych chi'n fodlon â'r hyn gallan nhw ei weld?
- Helpwch eich ffrindiau a'ch cydweithwyr – rhowch wybod iddyn nhw neu eich rheolwr os byddwch chi'n sylwi ar bethau ar dudalennau rhwydweithio cymdeithasol a allai gael eu camddehongli;
- Mae rhwydweithio cymdeithasol yn caniatáu mwy o fynediad at eich bywyd personol nag erioed o'r blaen – pe bai'r hyn rydych chi'n ei wneud yn bersonol yn destun pryder i'ch cyflogwr, efallai byddai hynny'n arwain at sgil-effeithiau;
- Gellir nodi eich amgylchiadau personol trwy gyfrwng rhywfaint o'r wybodaeth byddwch chi'n ei chyhoeddi ar wefannau e.e. gellir defnyddio meddalwedd adnabod lluniau i'ch olrhain chi neu bobl sy'n gysylltiedig â chi;
- Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'ch gosodiadau diogelwch a mynediad a chofiwch eu gwirio – gallai cynnwys eich manylion cyswllt personol fel eich rhif ffôn symudol olygu fod y cyhoedd yn gallu eu gweld;
- Os byddwch chi'n cyhoeddi lluniau personol ar-lein, gall aelodau eich teulu gael eu holrhain e.e. bydd llun o'ch plentyn mewn gwsg ysgol yn hysbysu pawb ble ellir canfod eich plentyn.

- Dylech chi wirio polisi eich asiantaeth – ond nid yw'n ddoeth derbyn pobl sy'n gweithio gyda chi fel 'ffrindiau' ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol. Dylid trin ymddygiad digidol yn yr un modd ag unrhyw ymddygiad arall;
- Os byddwch chi'n defnyddio cyfryngau ar-lein i wneud ffrindiau neu gael perthnasau, cofiwch gymryd camau rhesymol i sicrhau fod fod unrhyw unigolion byddwch chi'n cysylltu â nhw yn oedolion. Cofiwch y gall rhai pobl ifanc sy'n agored i niwed ddweud celwydd am eu hoedran er mwyn cwrdd â phobl hŷn.

CANLYNIADAU

Gallai defnydd cymdeithasol anaddas o'r rhyngrwyd oddi allan i'r gweithle ddwyn anfri ar y sefydliad/asiantaeth, dinistrio perthnasau gwaith neu olygu fod y sefydliad yn wynebu goblygiadau posibl.

Gallai ymddwyn yn groes i bolisïau eich sefydliad gael ei ystyried yn gamymddwyn difrifol a gallai hynny arwain at gamau disgyblu, hyd at ac yn cynnwys diswyddiad diannod.